WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Chwefror 2011

**Awdur: Archwilydd Cyffredinol Cymru** **Cyf: 133A2011**

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2010

# **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | 7 |
| **Adran 1: Archwilio cyfrifon** | 8 |
| *Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol Ymddiriedolaeth GIG Felindre, ond wrth wneud hynny nodwyd rhai meysydd i'w gwella yn y broses o baratoi cyfrifon, ac o fewn systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol* | 8 |
| **Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau** | 12 |
| *Mae trefniadau priodol ar waith i reoli a monitro arian yn y byrdymor a'r tymor canolig, ond mae angen gwella rhai meysydd i wella'r broses* | 13 |
| *Mae trefniadau priodol ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu da, ond mae angen gwneud rhagor o waith i atgyfnerthu'r trefniadau hyn mewn rhai meysydd pwysig* | 15 |
| *Mae 'ffactorau galluogi' allweddol ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus yn cael eu rheoli'n briodol ond gellid gwella rhai trefniadau a bydd angen eu datblygu i ategu cynlluniau ar gyfer arbed costau a datblygu gwasanaethau* | 19 |
| *Er bod adolygiadau archwilio perfformiad unigol wedi tynnu sylw at agweddau ar arfer da cydnabyddedig, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu heriau penodol mewn sawl maes darparu gwasanaeth* | 22 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Llythyr Archwilio Blynyddol diwethaf | 24 |
| Ffi archwilio | 25 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) ddiwedd 2009 a thrwy gydol 2010. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Cynlluniaf yr archwiliad ar sail risg, ac mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar y risgiau ariannol a gweithredol sylweddol y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu hwynebu, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir mwy o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodwyd yr adroddiadau hyn, a chytunwyd arnynt, gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Mae angen ystyried y canfyddiadau a nodwyd gennyf yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun y gwaith ad-drefnu strwythurol mawr sydd wedi'i wneud yn y GIG yng Nghymru dros y 18 mis diwethaf, a'r rhaglen o waith cenedlaethol sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, perfformiad cymysg a chynaliadwyedd ariannol. Gyda'i gilydd, mae hyn yn agenda newid sylweddol a heriol iawn i'r Ymddiriedolaeth a'i staff.
5. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cadw ei statws fel ymddiriedolaeth, mae'r gwaith o ad-drefnu'r GIG wedi cael effaith sylweddol arni:
   - Ar 1 Hydref 2009, sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a ddaeth yn gyfrifol am Wasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS) a Gwasanaethau Sgrinio a oedd yn rhan o Ymddiriedolaeth GIG Felindre cyn hynny. Ers y dyddiad hwnnw mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth y cytunwyd arno ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol.
   - Ar 1 Ebrill 2010, daeth yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am sefydliad newydd wedi'i leoli ynddi, sef Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).
6. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gweld sawl newid o ran ei huwch-reolwyr dros y ddwy flynedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i'r gwaith o ad-drefnu'r GIG. Ers mis Ionawr 2009 mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael tri phrif weithredwr (parhaol, dros dro a gweithredol) a dau Gyfarwyddwr Cyllid (parhaol a dros dro). Ar hyn o bryd mae gan yr Ymddiriedolaeth Brif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Cyllid a benodwyd ar sail barhaol ar 1 Chwefror 2011.

7. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sawl maes lle y gellir datblygu trefniadau a gwasanaethau ymhellach. O ystyried maint yr agenda newid o fewn y GIG ac yn lleol o fewn yr Ymddiriedolaeth, mae'n anochel y caiff llawer o drefniadau corfforaethol a meysydd darparu gwasanaeth o fewn yr Ymddiriedolaeth eu hadolygu neu eu newid.
8. Mae'n bwysig bod y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio, y ceir crynodeb ohonynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu defnyddio fel ysgogiad a'u bod yn annog rheolwyr i ganolbwyntio arnynt i sicrhau y cânt eu gweithredu cyn gynted â phosibl lle mae angen gwelliannau.
9. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

10. Drwy fy ngwaith ar archwilio cyfrifon, rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth warged wrth gefn o £49,000 ar ddiwedd 2009-10.
11. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
    - er bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn gywir ymhob ffordd berthnasol, gellid gwella'r broses o baratoi cyfrifon ymhellach;
    - mae gan yr Ymddiriedolaeth systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol priodol ar waith, ond mae angen atgyfnerthu rhai meysydd ymhellach.
12. Wrth roi barn ddiamod, rwyf wedi tynnu sylw'r Ymddiriedolaeth at nifer o faterion. Mae'r rhain yn ymwneud â'r broses o gau cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn a'r broses o baratoi datganiadau ariannol ac, yn benodol, yr angen i wella ansawdd y papurau gwaith sy'n ategu'r datganiadau ariannol a'r broses adolygu ansawdd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

13. Daeth fy ngwaith yn y maes hwn i'r casgliad fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei defnydd o adnoddau. Er bod fy ngwaith wedi nodi rhai meysydd o arfer da, ceir sawl maes lle y gellid gwneud gwelliannau pellach.
14. Daeth fy ngwaith asesu strwythurol i'r casgliad fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i reoli cynlluniau ariannol byrdymor a thymor canolig ac mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2010-11. Mae'r trefniadau llywodraethu a'r 'ffactorau galluogi' a all helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol yn briodol ond gellid eu gwella ymhellach mewn rhai meysydd pwysig.
15. Roedd fy ngwaith archwilio perfformiad arall yn yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys adolygiad o drefniadau arlwyo Ysbyty'r Ymddiriedolaeth. Daeth y gwaith hwn i'r casgliad fod gwasanaeth arlwyo a threfniadau rheoli maeth yr Ymddiriedolaeth yn dangos sawl agwedd ar arfer da cydnabyddedig; fodd bynnag, gellir gwella trefniadau sgrinio a chyfathrebu o ran maeth rhwng nyrsys a staff arlwyo.

16. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r gwaith o gynllunio'r gwasanaeth arlwyo'n effeithiol;
- er bod yr Ymddiriedolaeth yn monitro costau'n weithredol, gellid gwneud mwy i reoli costau gwasanaethau arlwyo;
- mae cleifion yn cael bwyd mewn cyflwr da ond mae angen gwella trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng staff nyrsio ar arlwyo;
- mae gwasanaeth arlwyo'r Ymddiriedolaeth yn ddigon hyblyg i sicrhau bod cleifion yn cael digon o faeth ond mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r llwybr maethol;
- mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati i geisio barn cleifion ac mae cryn dipyn ohonynt yn cymryd rhan mewn adolygiadau ansawdd ac mae eu boddhad yn gymharol uchel.

17. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb yn gadarnhaol i'r materion a nodwyd yn yr adolygiad arlwyo ac mae cynlluniau gweithredu ar waith i ymdrin â materion o bryder ac i adeiladu ar arferion da a nodwyd.

18. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar sawl adolygiad ar y pynciau canlynol, a chaiff y rhain eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth yn ystod Gwanwyn 2011:

- gweld manteision y contract newydd ar gyfer meddygon ymgynghorol;
- adolygiad darparu gwasanaeth Atebion Iechyd Cymru;
- gwaith dilynol ar faterion a nodwyd yn yr Adroddiad Etifeddiaeth yn 2009.

### Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Ymddiriedolaeth

19. Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Chwefror 2011. Yna caiff ei gyflwyno mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Ymddiriedolaeth.

20. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

21. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i Aelodau Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn nodi canfyddiadau allweddol o waith archwilio a wnaed rhwng mis Hydref 2009 a mis Tachwedd 2010.

22. Ymgymeraf â'm gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

    a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth;

    b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;

    c) bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

23. Mewn perthynas â (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

    - canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
    - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig o'r Ymddiriedolaeth, gan archwilio'r trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu, atebolrwydd a rheoli adnoddau;
    - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
    - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
    - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

24. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

25. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

    - Archwilio cyfrifon
    - Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

26. Yn olaf, mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i wneud fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

27. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2009-10. Drwy'r datganiadau hyn y mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei warged neu ddiffyg net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae archwilio datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

### Fy nghyfrifoldebau

28. Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i archwilwyr roi eu barn ar y canlynol:
    - a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
    - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
    - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
    - a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
    - rheoleidd-dra'r gwariant ac incwm.
29. Wrth gyflwyno'r farn hon, mae'n ofynnol i archwilwyr gydymffurfio â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
30. Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
    - amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth;
    - systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r datganiadau ariannol.

### *Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol Ymddiriedolaeth GIG Felindre, ond wrth wneud hynny nodwyd rhai meysydd i'w gwella yn y broses o baratoi cyfrifon, ac o fewn systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol*

#### Er bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn gywir ymhob ffordd berthnasol, gellid gwella'r broses o baratoi cyfrifon ymhellach

31. Deuthum i'r casgliad fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a bod rhai agweddau ar ddulliau paratoi cyfrifon a sicrhau ansawdd yr Ymddiriedolaeth wedi gwella ers blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae rhai materion yn codi dro ar ôl tro sy'n parhau i amharu ar effeithlonrwydd y broses.

32. Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Mhartner Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion allweddol sy'n codi o'n harchwiliad i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 23 Mehefin 2010. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r gofynion adrodd a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: Gofynion Adrodd ISA 260**

| Gofynion o ran cyflwyno adroddiadau | Sylwadau archwilwyr |
|---|---|
| Addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwilydd. | Nid oedd unrhyw addasiadau i dystysgrif nac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. |
| Camddatganiadau nas addaswyd. | Ni wnaed unrhyw gamddatganiadau nas addaswyd, ac eithrio'r rheini sy'n fân gamddatganiadau amlwg ym marn yr archwilydd. |
| Gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol yn ystod yr archwiliad. |
| Safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr endid. | Gwnaed rhai argymhellion i wella'r broses paratoi cyfrifon ymhellach a lleihau unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol rhwng y cyfrifon drafft a'r cyfrifon archwiliedig. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu. | Nid oedd unrhyw faterion y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu. |
| Unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r archwiliad. | Tynnwyd dau fater at sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:<br>• Prydlondeb y gwaith o orffen y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) y cytunwyd arno ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Gorffennwyd y CLG hwn ym mis Medi 2010.<br>• Adolygiad y Gronfa Ailbrisio Asedau Sefydlog, nad yw wedi'i gyflawni ers 2008-09. Mae'r adolygiad hwn yn mynd rhagddo. |

33. Nodais yn Adroddiad ISA 260 i'r Ymddiriedolaeth fod y papurau gwaith ac ansawdd cyffredinol y papurau sy'n ategu'r cyfrifon wedi dangos peth gwelliant o'u cymharu â'r rhai a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, erys rhai meysydd y mae angen eu gwella ymhellach ar gyfer y dyfodol. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- tystiolaeth ddogfennol gadarnach i ategu'r ffordd y mae rheolwyr wedi llunio eu barn wrth gyfrifo ffigurau i'w cynnwys yn y cyfrifon;
- gwell croesgyfeirio mewn perthynas â phapurau gwaith o fewn y ffeiliau archwilio a gynhyrchwyd gan yr Ymddiriedolaeth;

- gwell llwybrau archwilio rhwng y ffigurau yn y cyfrifon a'r systemau ariannol;
- gwell gweithdrefnau i atal camgymeriadau sy'n cael eu gwneud dro ar ôl tro ac i sicrhau cysondeb o flwyddyn i flwyddyn.

34. Nodais hefyd nad oedd llawer o dystiolaeth fod adolygiad sicrwydd ansawdd cadarn o'r cyfrifon drafft wedi'i gynnal gan uwch reolwyr cyn iddynt gael eu cyflwyno i'w harchwilio. Byddai adolygiad sicrwydd ansawdd trwyadl o'r datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol wedi lleihau nifer yr addasiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol a thynnu sylw'r staff cyllid at feysydd i'w gwella ar gyfer y dyfodol.

35. Rwyf wedi nodi nifer o feysydd y gellir eu gwella ymhellach ond rwy'n ymwybodol bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn arbennig o brysur eleni, gyda llawer mwy o waith ar gyfer Adran Gyllid yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad i'r gwaith canlynol:

- sefydlu Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru) hanner ffordd drwy'r flwyddyn;
- paratoi setiau unigol o ddatganiadau ariannol ar gyfer dau gorff statudol;
- paratoi ar gyfer y broses o greu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) o bedwar corff gwahanol - sefydlwyd sefydliad wedi'i leoli yn yr Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2010;
- dechrau defnyddio system cyfrifyddu ariannol Oracle yn lle system SUN ar 1 Ebrill 2010;
- cyflwyno Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth i'r Ymddiriedolaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

36. Nodwyd nifer o newidiadau sydd eisoes wedi'u gwneud mewn trafodaethau diweddar gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, a dylai'r rhain helpu i wella'r broses o baratoi'r cyfrifon blynyddol ar gyfer 2010-11. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cau cyfrifon yn gynharach ar ddiwedd y mis a rhannu gwaith yn fwy cyfartal ar draws yr adran gyllid.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol priodol ar waith; fodd bynnag, mae rhai meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

37. Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol gennym yn systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth yn ystod yr archwiliad. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau, fel y nodir yn Arddangosyn 2, ac rydym wedi argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth roi trefniadau priodol ar waith i atgyfnerthu'r rheolaethau mewnol ymhellach. Mae Arddangosyn 2 hefyd yn nodi'r camau a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth hyd yma mewn ymateb i'n hargymhellion.

**Arddangosyn 2: Materion allweddol a chamau a gymerwyd**

| Mater allweddol | Camau a gymerwyd |
|---|---|
| **CLGau Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol:** | |
| • mae angen cytuno ar y CLGau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a NWIS a'u llofnodi cyn gynted â phosibl;<br>• mae angen sefydlu gweithdrefnau monitro priodol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu fel y cytunwyd. | • cytunwyd ar y ddau CLG a'u llofnodi;<br>• mae prosiect CLG wedi'i sefydlu i fonitro yn unol â hynny. |
| **Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol:** | |
| • nid yw'r gweithdrefnau rheolaeth ariannol wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r canlynol:<br>– bod Iechyd Cyhoeddus Cymru a NWIS wedi'u sefydlu;<br>– y gwaith o ddechrau defnyddio system cyfrifyddu ariannol Oracle FMS. | • mae pob gweithdrefn wrthi'n cael ei hadolygu o ganlyniad i newid sefydliadol a'r gwaith o gyflwyno Oracle a gwasanaethau Bancio newydd y Llywodraeth. |
| **Asedau Sefydlog:** | |
| • adolygiad parhaus o Gronfeydd Ailbrisio Asedau Sefydlog;<br>• rhoi systemau priodol ar waith i ystyried dad-gydnabod a lleihad yng ngwerth asedau yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 16. | • mae'r adolygiad hwn yn mynd rhagddo;<br>• gweithdrefnau i'w datblygu ac adolygiad i'w gynnal cyn diwedd y flwyddyn. |
| **Rheolaeth Gyllidebol:** | |
| • gwella fformat ac esboniadau sy'n ymwneud â newidiadau cyllidebol y cyflwynir adroddiadau arnynt i'r Bwrdd. | • mae gwelliannau priodol wedi'u gwneud i fformat adroddiadau ariannol mewnol. |
| **Adroddiadau Archwilio Mewnol ac argymhellion allanol:** | |
| • prydlondeb Adroddiadau Archwilio Mewnol terfynol;<br>• cyflawnder a chywirdeb ar yr adroddiad ar argymhellion allanol a'r camau a gymerwyd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio. | • mae gwaith Archwilio Mewnol wedi'i symud ymlaen;<br>• mae fformat yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio wrthi'n cael ei adolygu. |

38. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliais adolygiad hefyd o'r rheolaethau lleol mewn perthynas â system cyflogres y Cofnod Staff Electronig (ESR). Cadarnhaodd yr adolygiad hwn fod y seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) lleol sy'n cefnogi system cyflogres yr ESR yn briodol ar y cyfan, a bod trefniadau cefnogi da ar waith; fodd bynnag, mae angen gwella rhai rheolaethau amgylcheddol.

39. Mae Atebion Iechyd Cymru, a ddaeth yn rhan o NWIS ar 1 Ebrill 2010, yn darparu nifer o gymwysiadau TG a ddefnyddir gan sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru. Fel rhan o gynllun archwilio'r Systemau wedi'u Lleoli'n Genedlaethol, adolygodd Swyddfa Archwilio Cymru dair o'r systemau hyn (y System Fferylliaeth Gymunedol, System Demograffig Cymru a Seilwaith Rhwydwaith

Cymru) yn ystod 2009-10 a gwnaed gwaith dilynol ar ein gwaith archwilio ar gyfer 2008-09 ar y System Fferylliaeth Ysbyty.

40. Deuthum i'r casgliad fod y cyfarpar a'r seilwaith TGCh y mae'r systemau cymhwyso hyn yn ddibynnol arnynt yn briodol ar y cyfan, a bod trefniadau cymorth digonol ar waith. Fodd bynnag, ni fydd y system gymhwyso Fferylliaeth Ysbyty na rhai o gydrannau System Demograffig Cymru yn ddefnyddiol ymhen ychydig flynyddoedd a bydd angen eu newid.

41. Yn ogystal â'n gwaith archwilio TGCh, gwnaed gwaith ychwanegol o fewn y System Fferylliaeth Gymunedol i roi sicrwydd i archwilwyr allanol y Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) bod y systemau sy'n rhoi data ar fferylliaeth gymunedol i BILlau yn addas at y diben ac nad ydynt wedi'u cam-ddatgan.

42. Rhoddodd ein gwaith yn y maes hwn sicrwydd i archwilwyr allanol y BILlau a nodwyd rhai meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau o ran sgriptiau a thargedau perfformiad ardystiedig y cyflwynwyd adroddiadau arnynt i Lywodraeth y Cynulliad.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

43. Mae gofyniad statudol arnaf i fod yn fodlon bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. I helpu i fodloni'r gofyniad hwn, cynhaliodd yr archwilwyr 'asesiad strwythuredig' o'r trefniadau corfforaethol perthnasol yn yr Ymddiriedolaeth. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn wedi ystyried y trefniadau ar gyfer y canlynol:

- rheoli ariannol;
- llywodraethu ac atebolrwydd;
- defnyddio 'ffactorau galluogi' allweddol i ategu'r defnydd o adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

44. Ar y cyfan, deuthum i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i reoli cynlluniau ariannol byrdymor a thymor canolig ac mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2010-11. Mae'r trefniadau llywodraethu a'r 'ffactorau galluogi' a all helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol yn briodol ond gellid eu gwella ymhellach mewn rhai meysydd pwysig.

45. Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn crynhoi canfyddiadau archwiliad manwl o drefniadau arlwyo mewn ysbytai a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf.

### *Mae trefniadau priodol ar waith i reoli a monitro arian yn y byrdymor a'r tymor canolig, ond mae angen gwella rhai meysydd i wella'r broses*

46. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae safonau uchel wrth reoli arian yn bwysicach nag erioed. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau archwilwyr ar drefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, ac yn ystyried y canlynol:

- trefniadau cynllunio ariannol;
- trefniadau rheoli costau a monitro'r gyllideb;
- y cynnydd a wneir o ran rhaglenni arbed costau, a gallu'r Bwrdd i wario o fewn ei derfynau adnoddau a galluogi'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd ei tharged o ran mantoli'r gyllideb.

#### Er bod tystiolaeth o waith cynllunio ariannol blynyddol a thymor canolig priodol, mae angen gwneud rhai gwelliannau i wella'r broses cynllunio ariannol gyffredinol

47. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio cynllun ariannol tymor canolig (y cynllun) yn seiliedig ar flaenoriaethau a strategaethau allweddol Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r cynllun yn cynnwys cynllun manwl ar gyfer pob isadran gwasanaethau, gan gynnwys yr isadran gwasanaethau corfforaethol. Mae'r cynllun yn ystyried blaenoriaethau a thargedau cenedlaethol a lleol, yn ystyried incwm a gwariant ar wahân ac yn seiliedig ar gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) y cytunwyd arnynt gyda chomisiynwyr, darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau corfforaethol. Mae'r cynllun ariannol blynyddol yn gysylltiedig â gwaith cynllunio busnes a gwasanaethau.

48. Daethom i'r casgliad bod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cynllunio ariannol yn ymddangos yn ddigonol ac rydym wedi nodi rhai meysydd lle y gallai gwelliannau pellach wella'r broses gynllunio. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- monitro perfformiad CLGau yn well (gan gynnwys CLGau gyda chomisiynwyr, darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau corfforaethol), o ran cost a gweithgarwch; gwella prydlondeb y gwaith o gytuno ar CLG;
- datblygu'r dadansoddiad sensitifrwydd (dim ond eleni y cafodd ei gyflwyno) ymhellach, i gynnwys effeithiau ar ddarpariaeth gwasanaethau;
- tystiolaeth ddogfennol o drafodaethau a chyfarfodydd â rhanddeiliaid i ystyried cynlluniau cyrff eraill ac ati.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i fonitro perfformiad yn erbyn cyllidebau blynyddol a thargedau ariannol; fodd bynnag, mae angen dogfennu heriau i berfformiad ariannol a gwaith craffu yn gliriach

49. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau ariannol is-adrannol misol yn cynnwys gwybodaeth ariannol ac anariannol. Yn ystod 2010-11, gwnaed gwelliannau mawr i fformat adroddiadau ariannol mewnol.

50. Mae trefniadau priodol ar waith mewn isadrannau i graffu ar berfformiad yn erbyn cyllidebau yn y cynllun ariannol blynyddol, sy'n arwain at gamau adferol ar gyfer unrhyw amrywiadau sylweddol a nodir. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau ariannol is-adrannol misol i'r Bwrdd.

51. Mae'r lefel o waith craffu a heriau wedi cynyddu yn sgîl penodiadau diweddar gan y Cyfarwyddwr Anweithredol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth glir o lefel y gwaith craffu yng nghofnodion cyfarfodydd y Bwrdd na chyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio bob amser.

52. Ymddengys bod trefniadau priodol ar waith o ran monitro arbedion ariannol ar lefel y Bwrdd ac islaw hynny a chyflwyno adroddiadau arnynt, yn arbennig o fewn y Ganolfan Ganser.

### Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu o fewn yr adnoddau gwariant sydd ar gael iddi ac mae'n disgwyl mantoli'r gyllideb yn 2010-11

53. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth warged o £49,000 ar gyfer y cyfnod o 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010. Cyflawnwyd hyn drwy drefniadau rheoli ariannol agos, sydd wedi'u datblygu ymhellach yn 2010-11. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu o fewn yr adnoddau gwariant sydd ar gael iddi ac mae'n disgwyl mantoli'r gyllideb yn 2010-11.

54. Mae'r Ganolfan Ganser yn parhau i wynebu heriau ariannol oherwydd natur y gwasanaeth a ddarperir a'r targedau canser heriol y mae'n rhaid iddi eu cyflawni. Yn ystod 2010-11, mae'r Ymddiriedolaeth wedi atgyfnerthu trefniadau gyda'r Ganolfan Ganser i nodi a monitro'r arbedion y mae'n rhaid eu cyflawni yn 2010-11. Mae trafodaethau diweddar rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro yn dangos bod y Ganolfan Ganser ar y trywydd cywir i fantoli'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11.

55. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i reoli arian yn ofalus ac yn agos, nid yn unig i gyrraedd targedau statudol, ond o ganlyniad i'r pwysau cynyddol o ran costau o fewn GIG Cymru. Mae'n ofynnol i bob corff iechyd yng Nghymru gyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y pum mlynedd nesaf.

## *Mae trefniadau priodol ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu da, ond mae angen gwneud rhagor o waith i atgyfnerthu'r trefniadau hyn mewn rhai meysydd pwysig*

56. Mae safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd yn ofynion hanfodol wrth ddangos y gwarchodir arian cyhoeddus yn effeithiol ac y defnyddir adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae angen i fyrddau cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt 'fframwaith sicrwydd' effeithiol ar waith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu ar berfformiad. Fel rhan o'r Asesiad Strwythuredig, mae archwilwyr wedi edrych ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yr Ymddiriedolaeth.

57. Rwyf wedi llunio'r casgliad uchod yn seiliedig ar y canfyddiadau canlynol.

### Nid yw dull yr Ymddiriedolaeth o bennu, adolygu a gweithredu amcanion strategol wedi'i ddatblygu'n llawn hyd yma

58. Er nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi llunio datganiad cenhadaeth yn amlinellu ei diben allweddol na'r amcanion y mae'n gobeithio eu cyflawni, pennodd bum amcan lefel uchel ym mis Medi 2009.

59. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion strategol hyn yn gysylltiedig ag amcanion mesuradwy er bod yr amcanion yn ffurfio'r penawdau y caiff adroddiadau perfformiad is-adrannol eu cyflwyno yn eu herbyn i'r Bwrdd. Nid yw'r pum amcan strategol wedi'u hadlewyrchu'n llawn yng nghynlluniau strategol na chynlluniau gweithredol yr Ymddiriedolaeth, megis Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid (SWaFF) pum mlynedd yr Ymddiriedolaeth.

60. Ar lefel is-adrannol, caiff pum amcan strategol yr Ymddiriedolaeth eu hadlewyrchu yn SWaFF Gwasanaeth Gwaed Cymru, ynghyd â'i chenhadaeth a'i hamcanion is-adrannol. Mae SWaFF y Ganolfan Ganser yn canolbwyntio ar alw yn y dyfodol a dewisiadau gwasanaeth posibl. Nid yw'n cyfeirio'n glir at ei hamcanion ar lefel is-adrannol nac yn gwneud cysylltiadau ag amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth.

61. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen i'r Ymddiriedolaeth lunio strategaeth gyffredinol sy'n cyfleu cenhadaeth, diben, gwerthoedd sefydliadol ac amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth yn glir. Yna, gellir gwneud cysylltiad clir rhwng y blaenoriaethau corfforaethol ac is-adrannol fel y cânt eu hadlewyrchu'n ddigonol ar bob lefel yn y sefydliad.

### Er bod gan yr Ymddiriedolaeth strwythur sefydliadol a chynllun dirprwyo sefydledig, byddai'r cyfnod o sefydlogrwydd mewn perthynas â sawl swydd allweddol yn fuddiol i'r Bwrdd

62. Mae strwythur sefydliadol yr Ymddiriedolaeth yn sefydledig gyda chanolfan ac isadrannau corfforaethol. Mae gwasanaethau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn darparu cymorth derbyniol i'r Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru. Mae cynllun dirprwyo effeithiol ar waith, sydd wedi'i nodi yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth. Mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn sefydledig, ac mae cylch gorchwyl y cytunwyd arno gan bob un ohonynt. Mae dulliau ar waith ymhob rhan o strwythur y pwyllgorau i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth allweddol.

63. Mae'r strwythurau rheoli is-adrannol yn adlewyrchu rhai'r Ymddiriedolaeth ar y cyfan. Mae cylch gorchwyl ar waith gan uwch dimau rheoli is-adrannol ac mae cyfarfodydd is-adrannol yn defnyddio fformat cyfarfodydd y Bwrdd, gydag agendâu wedi'u halinio â'r pum amcan sefydliadol. Mae swyddog anweithredol wedi'i ddewis i weithio fel y prif gyswllt gydag is-adrannau Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r Ganolfan Ganser.

64. Fodd bynnag, gallai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth fod yn fwy effeithiol drwy sicrhau sefydlogrwydd mewn perthynas â rhai swyddi allweddol. Mae'n bosibl bod sawl penodiad interim hirsefydlog mewn swyddi allweddol wedi cael effaith anffafriol ar weithrediadau'r Bwrdd a'r gwaith o gyflawni amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth. Amharwyd ar effeithiolrwydd y bwrdd gan y swyddi gweithredol ac anweithredol ar lefel y Bwrdd nad ydynt wedi'u llenwi'n barhaol eto.

### Mae trefniadau rheoli risg priodol ar waith, er bod lle i wella mewn rhai meysydd, ond mae hyn yn cael ei ddatrys ar hyn o bryd

65. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio strategaeth rheoli risg sydd wedi'i hategu gan nifer o bolisïau, ac mae system rheoli risg DATIX yn ei chefnogi. Mae strwythurau llywodraethu priodol wedi'u sefydlu i reoli risgiau.

66. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth system ar-lein DATIX i bob aelod o staff ym mis Mehefin 2010 pan gafodd y system hon ei rhoi ar waith yn y Ganolfan Ganser. Mae'r system hon yn caniatáu i wybodaeth asesu risg gael ei chofnodi'n lleol a'i bwydo i'r strwythur adrodd fel y bo'n briodol. Mae adrannau'n llunio cofrestrau risg ac yn proffilio risgiau ar draws eu meysydd o gyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf o isadrannau allweddol, ond nid pob un ohonynt, wedi cwblhau asesiadau risg, sy'n golygu nad oes gan yr Ymddiriedolaeth broffil risg cyflawn ar draws ei holl gyfrifoldebau hyd yma. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd mewn perthynas â hyn gan fod pob aelod o staff drwy'r sefydliad bellach yn gallu defnyddio DATIX.

67. Caiff cofrestrau risg eu paratoi ar lefelau is-adrannol a chorfforaethol. Caiff y risgiau mwyaf ar draws y sefydliad eu cynnwys ar gofrestr risg yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys tua 40 o risgiau. Caiff y gofrestr risg gorfforaethol ei chyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch bob chwarter.

68. Rwyf wedi nodi rhai gwelliannau pellach y gellir eu gwneud o ran y ffordd y caiff risgiau eu cyflwyno i gofrestr risg yr Ymddiriedolaeth, er enghraifft, dylid diweddaru gwybodaeth a chofnodi newidiadau o ran sgoriau risg yn glir. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y meysydd gwella hyn ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â hwy.

### Mae amgylchedd rheoli mewnol priodol ar waith i roi sicrwydd i'r Bwrdd

69. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael sicrwydd o sawl maes, a cheir cydbwysedd da rhwng ffynonellau mewnol ac allanol. Mae'r dulliau rheoli mewnol allweddol wedi'u sefydlu ymhob rhan o strwythur is-bwyllgor y Bwrdd. Ceir fframwaith ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, a chyflwynir adroddiad ar hwn i bwyllgorau perthnasol y Bwrdd a'r Bwrdd llawn.

70. Ymhlith y ffynonellau sicrwydd allweddol sy'n cyfrannu at amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth mae'r canlynol:

- Mae'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn rhoi dealltwriaeth glir o fframwaith rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth ac yn helpu i sicrhau y caiff prosesau sicrwydd eu cydlynu.
- Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn darparu gwasanaeth boddhaol i'r Ymddiriedolaeth ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn gweithio'n dda gyda'r Ymddiriedolaeth i lunio strategaeth archwilio a chynllun gwaith sydd wedi'i asesu am risgiau.
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yr Ymddiriedolaeth, sy'n nodi sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud penderfyniadau ac yn cynnal ei busnes.
- Mae rhaglen archwiliad clinigol briodol ar waith i ddarparu fframwaith sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae archwiliad clinigol yn elfen sylfaenol o sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau cleifion.
- Mae rhai rhannau o fusnes yr Ymddiriedolaeth yn ddarostyngedig i brosesau rheoleiddio allanol, er enghraifft Gwasanaeth Gwaed Cymru, sy'n cael ei reoleiddio gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ac sy'n cael ei arolygu'n rheolaidd.

71. Dros y 12 i 18 mis diwethaf, mae'r heriau a'r gwaith craffu a ddarperir gan y Pwyllgor Archwilio wedi cynyddu wrth i'r Pwyllgor fynd i'r afael â'i agenda. Er nad yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi cael Ysgrifennydd drwy'r rhan fwyaf o 2010, bydd trefniadau rheolaeth fewnol yn cael eu hatgyfnerthu ar ddechrau 2011 pan fydd Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn dychwelyd o absenoldeb mamolaeth. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn rhoi cymorth a chyngor i'r Bwrdd ar lywodraethu da a rheoli risg. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y sefyllfa hon ac wedi rhoi trefniadau dros dro ar waith drwy benodi Ysgrifennydd Bwrdd dros dro am dri mis cyntaf 2011.

**Dylai'r Ymddiriedolaeth orffen y gwaith o ddiweddaru'r strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn fuan yn sgîl ad-drefnu'r GIG**

72. Nid yw strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yr Ymddiriedolaeth yn gyfredol ac mae gwaith ar ddiweddaru'r strategaeth yn mynd rhagddo, a dylai'r gwaith hwn gael ei orffen erbyn mis Mawrth 2011. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r Ganolfan Ganser hefyd wedi diweddaru eu strategaethau TGCh is-adrannol ar ddiwedd 2010, a bydd y rhain yn ategu strategaeth TGCh gyffredinol yr Ymddiriedolaeth.

73. Fel rhan o ddatblygiad y strategaeth TGCh, dylid datblygu fframwaith rheoli perfformiad a all gynnwys cerdyn sgorio cytbwys a dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Ymddiriedolaeth asesu perfformiad gwasanaethau TGCh a Llywodraethu Gwybodaeth yn erbyn amcanion strategol TGCh.

74. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth. Diweddarwyd strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth yn ddiweddar yn 2010. Mae Pwyllgor TGCh a Llywodraethu Gwybodaeth yn bodoli, sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae ganddo gylch gorchwyl clir ac mae Cyfarwyddwr Anweithredol sydd â phrofiad penodol ym maes TG yn ei gadeirio. Mae dau weithgor gweithredol a arweinir gan staff o NWIS yn cefnogi'r Pwyllgor TGCh a Llywodraethu Gwybodaeth.

**Gellir atgyfnerthu trefniadau corfforaethol ar gyfer monitro ac adolygu perfformiad drwy ddatblygu a chyflwyno adroddiadau yn erbyn fframwaith rheoli perfformiad cadarn yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol**

75. Nid yw'r Bwrdd wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad sy'n adlewyrchu natur amrywiol ei fusnes na gofynion allanol drwy'r Ymddiriedolaeth gyfan hyd yma. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi mapio ei ffynonellau sicrwydd allweddol mewn perthynas ag amcanion sefydliadol, hyd yma nid yw'n glir sut y caiff y rhain eu casglu i lunio barn gydlynol gyffredinol ar berfformiad.

76. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi datblygu ei gerdyn sgorio cytbwys ei hun mewn perthynas â pherfformiad is-adrannol, a chyflwynir adroddiad ar hwn ar lefel is-adrannol. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn paratoi adroddiad perfformiad misol i'r Bwrdd. Nid yw'r Ganolfan Ganser yn defnyddio cerdyn sgorio cytbwys. Yn lle hynny, mae'n paratoi adroddiadau perfformiad misol i'r Bwrdd, gan gynnwys perfformiad yn erbyn targedau Fframwaith Gweithredu Blynyddol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer amseroedd aros canser. Mae pum amcan strategol yr Ymddiriedolaeth yn ffurfio'r penawdau y caiff peth gwybodaeth gorfforaethol a'r adroddiadau perfformiad is-adrannol eu cyflwyno yn eu herbyn i'r Bwrdd. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion strategol wedi'u cysylltu ag amcanion mesuradwy y gellir eu defnyddio i asesu perfformiad hyd yma.

77. Felly, byddai'r Ymddiriedolaeth yn cael budd o sefydlu fframwaith rheoli perfformiad mwy cadarn a chynhwysfawr. Gallai'r system rheoli perfformiad hon gynnwys defnyddio cerdyn sgorio cytbwys sy'n defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol a ategir gan esboniad o symudiadau o ran perfformiad. Waeth beth fo ffurf y system rheoli perfformiad, dylai gefnogi gwaith monitro perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno ar bob lefel o'r sefydliad, sef y ganolfan gorfforaethol, yr isadrannau a chyfrifoldebau dros wasanaethau a phartneriaethau sydd wedi'u lleoli yn yr Ymddiriedolaeth. Byddai system o'r fath yn helpu'r Ymddiriedolaeth i nodi unrhyw amrywiannau'n glir yn erbyn safon, targedau ac amcanion strategol a sefydlu cynlluniau gweithredu gwelliannau priodol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu a chyflawni perfformiad.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau sefydledig i hyrwyddo gonestrwydd a phriodoldeb wrth wneud ei gwaith

78. Mae Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r codau ymddygiad a gonestrwydd a ddisgwylir gan bob aelod o staff. Caiff y rhain eu cefnogi gan nifer o bolisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â gonestrwydd a phriodoldeb, megis y Polisi Cofrestru a Datgan Buddiant a Pholisi Chwythu'r Chwiban.

79. Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro cydymffurfiaeth â'r polisïau hyn yn rheolaidd. Yn 2010, asesodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol y trefniadau rheolaeth fewnol mewn perthynas â'r Polisi Cofrestru a Datgan Buddiant. Mae Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth yn adolygu Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd ac wedi nodi rhai gwelliannau pellach ar gyfer y Gofrestr, yn arbennig o ran nifer y cofnodion, cynnwys y wybodaeth a chyflawnder y gofrestr.

80. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau gwrth-dwyll priodol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dod o hyd i Arbenigwr Gwrth Dwyll Lleol ac mae cymorth ar gael i adolygu trefniadau gwrth-dwyll. Mae'r Ymddiriedolaeth a'i Phwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo'r polisi gwrth-dwyll a chynllun blynyddol o waith gwrth-dwyll. Mae'r arbenigwr gwrth-dwyll yn cyflwyno adroddiadau i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth, lle y caiff cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith gwrth-dwyll ei adolygu'n rheolaidd a lle y caiff gwaith craffu ei gynnal ar adroddiadau terfynol.

## *Mae 'ffactorau galluogi' allweddol ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus yn cael eu rheoli'n briodol ond gellid gwella rhai trefniadau a bydd angen eu datblygu i ategu cynlluniau ar gyfer arbed costau a datblygu gwasanaethau*

81. Mae prosesau rheoli cadarn mewn perthynas ag adnoddau allweddol, megis pobl ac asedau, yn rhan hanfodol o'r gwaith o sicrhau gwerth da am arian. Mae angen i gynlluniau datblygu gwasanaethau ac arbed costau gael eu hategu gan waith effeithiol o ran cynllunio'r gweithlu, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi fy nghanfyddiadau yn y meysydd canlynol:

- trefniadau cynllunio'r gweithlu;
- caffael;
- rheoli asedau;
- gweithio gyda sefydliadau partner;
- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

### Mae cynlluniau gweithlu digonol wedi'u datblygu sy'n ategu modelau darparu a nodau ariannol cyfredol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i fireinio'r cynlluniau hyn ar gyfer y dyfodol

82. Lluniwyd cynllun gweithlu gan bob un o isadrannau'r Ymddiriedolaeth ar ddechrau 2010.
Mae'r cynlluniau hyn yn gadarn ar y cyfan. Cysylltwyd â staff clinigol a rhanddeiliaid eraill yn ystod y cam cynllunio. Ardystiwyd cynlluniau gweithlu'r Ymddiriedolaeth gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd.

83. Mae cynlluniau'r gweithlu'n cefnogi ac yn adlewyrchu nodau ariannol, arferion gwaith traddodiadol a phatrymau darparu gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth. Mae pwysau ariannol posibl yn debygol o olygu y caiff modelau darparu gwasanaeth a chymysgeddau sgiliau eu newid ymhellach. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y datblygiadau hyn ac yn ymwybodol y bydd angen mireinio cynlluniau'r gweithlu ymhellach i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau a chynlluniau moderneiddio gwasanaethau ac wrth i amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth ddatblygu.

### Mae dangosyddion ystadau yn dangos gwelliannau diweddar o ran rheoli sail asedau'r ysbyty ond nid oes strategaeth asedau ystadau wedi'i datblygu hyd yn hyn

84. Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyflwyno data i Ystadau Iechyd Cymru ar ystad yr ysbyty bob blwyddyn. Roedd amodau a dangosyddion adroddiad perfformiad Ystadau Iechyd Cymru ar gyfer 2009-10 yn dangos gwelliannau bach o ran y ffordd yr oedd ystad ysbyty'r Ymddiriedolaeth yn cael ei rheoli.

85. Mae cymorth cyfalaf yn bwysig i sicrhau y gall cyfleusterau'r Ganolfan Ganser ateb y galw cynyddol mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Achos Amlinellol Strategol ar gyfer gofynion y Gwasanaethau Canser yn y dyfodol. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth gytuno ar ffordd o ddatblygu'r cynlluniau cyfalaf hyn gyda Byrddau Iechyd Lleol (BILlau), Llywodraeth y Cynulliad a Rhwydwaith Canser De Cymru, o ystyried y cyfyngiadau ariannol a wynebir gan y GIG yng Nghymru.

86. O ganlyniad i statws cyfredol yr Achos Amlinellol Strategol, ni fu'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth lunio strategaeth asedau ystadau ar wahân. Fodd bynnag, dylai ystyried llunio strategaeth ar gyfer ei hystad ehangach yn y dyfodol. Y cam cyntaf yn y broses o lunio strategaeth asedau ystadau fyddai asesu pob rhan o'r ystad bresennol cyn asesu anghenion presennol yr Ymddiriedolaeth o ran adeiladau a'i hanghenion yn y dyfodol.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu dull cadarn o reoli'r hyn y mae'n ei gaffael, ond gellir gwneud gwelliannau drwy lunio strategaeth gaffael a gwneud cynnydd mewn perthynas â'r dangosyddion perfformiad allweddol a fesurwyd

87. Mae trefniadau rheoli caffael digonol ar waith ac maent yn gweithredu fel sail i swyddogaeth gaffael effeithiol.

88. Cafwyd oedi wrth adolygu strategaeth gaffael yr Ymddiriedolaeth wrth i'r cynigion ar gyfer asiantaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru Gyfan, gan gynnwys caffael, gael eu cwblhau gan Lywodraeth y Cynulliad. Ar hyn o bryd, nid oes strategaeth gaffael ffurfiol gyfredol na chynllun gweithredu cysylltiedig i lywio rhaglen gwella caffael ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â hyn ac mae strategaeth gaffael bellach yn cael ei drafftio a disgwylir iddi gael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2011. Dylai'r strategaeth hon amlinellu meysydd lle y gellid caffael yn fwy effeithlon.

89. Caiff dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â chaffael a cherdyn sgorio cytbwys eu mesur bob mis, a chyflwynir adroddiadau ar hyn i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r dangosyddion hyn yn dangos cynnydd yn erbyn targedau perfformiad y cytunwyd arnynt. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cyrraedd y targedau o ran talu anfonebau o fewn 30 diwrnod ac anfonebau sy'n cael eu hatal, mae lle i wella mewn perthynas â llawer o'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn o ran sicrhau bod trefniadau caffael yn cyrraedd mwy o bobl ar draws yr Ymddiriedolaeth ac yn cael mwy o ddylanwad.

### Mae trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn sefydledig ac mae'r Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa i ymdopi pe bai'r rhain yn dod o dan bwysau cynyddol o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol a datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol

90. Mae'r Ymddiriedolaeth a'i hisadrannau yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid i gyflawni amcanion a ddymunir. Mae trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn sefydledig. Mae'r Fframweithiau Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid is-adrannol yn cydnabod pwysigrwydd partneriaethau ond nid ydynt yn nodi partneriaid allweddol na'u rolau yn llawn mewn perthynas â darparu gwasanaeth.

91. Caiff Fframweithiau gweithredol is-adrannol eu llywio gan flaenoriaethau cenedlaethol a lleol a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Caiff cynlluniau strategol eu trafod â rhanddeiliaid drwy ymgysylltu â'r partneriaid strategol hyn, er enghraifft, Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru. Mae partneriaethau hefyd yn cael eu defnyddio i roi llwybrau cleifion newydd neu rai amgen.

92. Dylid esbonio rolau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth yn gliriach yng nghylch gorchwyl timau partneriaeth. Er bod nodweddion da i drefniadau partneriaeth yr Ymddiriedolaeth gyda'r sector gwirfoddol a sectorau eraill o ran darparu gwasanaethau amgen, dylid cofio y gall y rhain ddwyn risgiau cynhenid.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar gyfer ymgysylltu'n dda â defnyddwyr gwasanaethau a chleifion

93. Yn draddodiadol, mae isadrannau'r Ymddiriedolaeth wedi ymgysylltu'n dda gyda defnyddwyr gwasanaethau a rhoddwyr o ganlyniad i natur y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati i geisio barn defnyddwyr gwasanaethau, rhoddwyr a'r gymuned ehangach fel rhan o'r gwaith o wella a datblygu'r gwasanaeth. Mae'r gwaith o ymgysylltu â'r sector elusennol a sefydliadau gwirfoddol hefyd wedi'i ddatblygu'n effeithiol.

94. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo'r strategaeth ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a chleifion. Mae'r strategaeth yn cydnabod ac yn adlewyrchu amrywiaeth yr isadrannau mewn perthynas â chynnwys defnyddwyr gwasanaethau, cleifion a rhoddwyr. Mae rolau a chyfrifoldebau staff o ran cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a chleifion wedi'u nodi'n glir yn y strategaeth. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth yn nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni hyn yn llawn.

## *Er bod adolygiadau archwilio perfformiad unigol wedi tynnu sylw at agweddau ar arfer da cydnabyddedig, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu heriau penodol mewn sawl maes darparu gwasanaeth*

95. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau o waith archwilio perfformiad arall, gan edrych ar feysydd darparu gwasanaeth penodol o fewn yr Ymddiriedolaeth. Mae'n defnyddio gwaith a wnaed yn yr astudiaeth o arlwyo mewn ysbytai.

### Mae gwasanaeth arlwyo a threfniadau rheoli maeth yr Ymddiriedolaeth yn dangos sawl agwedd ar arfer da cydnabyddedig; fodd bynnag, gellir gwella trefniadau sgrinio a chyfathrebu o ran maeth rhwng nyrsys a staff arlwyo

96. Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r gwaith o gynllunio'r gwasanaeth arlwyo'n effeithiol:
  - mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull sefydledig o ddarparu gwasanaethau arlwyo, a gefnogir gan bolisïau arlwyo a maeth;
  - mae'r Grŵp Gwella Maeth i Gleifion Mewnol yn ffordd briodol o adolygu cynlluniau a'r ddarpariaeth o wasanaethau.
- Er bod yr Ymddiriedolaeth yn monitro costau'n weithredol, mae angen gwneud mwy i reoli costau gwasanaethau arlwyo:
  - caiff gwariant ei fonitro'n weithredol gan yr Ymddiriedolaeth ac mae camau'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwdd;
  - costau net gwasanaethau arlwyo'r Ymddiriedolaeth fesul diwrnod claf yw'r isaf yng Nghymru, ond mae'r lefelau o fwyd nad yw'n cael ei weini yn uchel;

  - mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi cymhorthdal o £106,000 y flwyddyn ar gyfer prydau bwyd nad ydynt ar gyfer cleifion.
- Mae cleifion yn cael bwyd mewn cyflwr da, ond mae angen gwella trefniadau o ran rhannu gwybodaeth rhwng staff nyrsio ac arlwyo er mwyn sicrhau'r canlynol:
  - caiff cleifion eu helpu i baratoi ar gyfer eu prydau bwyd a rhoddir y cyfle iddynt olchi eu dwylo cyn bwyta;
  - caiff y bwyd ei gyflwyno'n ddeniadol a'i roi i gleifion mewn cyflwr da, a chaiff cleifion eu gweini'n gyflym ac yn effeithlon;
  - mae trefniadau rhannu gwybodaeth am anghenion deietegol cleifion yn fwy effeithiol.
- Mae gwasanaeth arlwyo'r Ymddiriedolaeth yn ddigon hyblyg i sicrhau bod cleifion yn cael digon o faeth ond mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r llwybr maethol yn yr ystyr:
  - bod y bwydlenni yn cynnig dewis eang o fwydydd a bod cleifion yn fodlon ar y dewis sydd ar gael ar y cyfan;
  - bod amseroedd bwyd a ddiogelir yn gweithio'n dda ar y cyfan;
  - na chaiff cleifion eu sgrinio am risgiau maeth bob amser pan gânt eu derbyn i'r ysbyty;
  - nad oes cyngor dietegol arbenigol bob amser ar gael i gleifion sy'n wynebu risg fawr o ddiffyg maeth;
  - bod anghysondeb o ran cynlluniau gofal maeth.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati i geisio barn cleifion ac mae cryn dipyn ohonynt yn cymryd rhan mewn adolygiadau ansawdd ac mae eu boddhad yn gymharol uchel:
  - mae safbwyntiau cleifion yn cael eu ceisio a chânt eu hannog i gymryd rhan mewn adolygiadau ansawdd er mwyn gwella gwasanaethau;
  - mae cleifion yn fodlon ar y bwyd a gânt ar y cyfan.

97. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar nifer o'r adolygiadau archwilio perfformiad o'r pynciau canlynol, a chaiff canlyniadau'r adolygiadau hyn eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth yn ystod Gwanwyn 2011:

- Gwireddu manteision y contract newydd ar gyfer meddygon ymgynghorol
- Adolygiad darparu gwasanaethau Atebion Iechyd Cymru
- Gwaith dilynol ar faterion a nodwyd yn yr Adroddiad Etifeddiaeth yn 2009

98. Ar ddechrau 2011, bydd Archwilwyr hefyd yn gwneud rhywfaint o waith cwmpasu penodol i asesu a oes cyfle i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac effeithiol. Nod y gwaith cwmpasu hwn fydd pennu a fyddai archwiliad manylach yn ychwanegu gwerth ac felly a ddylid ei gynnwys yn strategaeth archwilio 2011. Bydd y gwaith cwmpasu yn edrych yn benodol ar y ddau faes canlynol:

- trefniadau staffio radiotherapi;
- prisio presgripsiynau.

Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Llythyr Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| **Adroddiadau Archwilio Ariannol** | |
| Archwiliad o'r Cyfrifon Ariannol ac Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu | 23 Mehefin 2010 |
| Adroddiad Memorandwm Datganiadau Ariannol 2009-10 | 6 Hydref 2010 |
| **Adroddiadau Archwilio Perfformiad** | |
| Arlwyo mewn Ysbytai | 24 Tachwedd 2010 |
| Asesiad Strwythuredig | Chwefror 23 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Strategaeth Archwilio | 11 Mawrth 2010 |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol | Chwefror 23 |

Atodiad 2

# Ffi archwilio

Nododd y Strategaeth Archwilio ar gyfer 2010 ffi archwilio arfaethedig o £180,967 (hen gynnwys TAW). Mae'r tabl isod yn nodi fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, gan gydnabod bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd.

**Dadansoddiad o ffi archwilio arfaethedig a ffi archwilio wirioneddol**

| Maes y cod | Y ffi arfaethedig (£) | Ffi wirioneddol amcangyfrifedig (£) |
|---|---:|---:|
| Archwilio cyfrifon | £98,549 | £105,760* |
| Archwilio perfformiad | £82,418 | £82,418 |
| **Cyfanswm** | **£180,967** | **£188,178** |

**Nodiadau**

* Codwyd y ffi ychwanegol o £7,211 o ganlyniad i'r amser ychwanegol a dreuliwyd yn cwblhau'r archwiliad o ddatganiadau ariannol 2009-10.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: wales@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk